**Y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

13 Awst 2008

Annwyl Gyfaill,

**YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYNALIADWYEDD I LEIHAU ALLYRIADAU CARBON YNG NGHYMRU: RHEOLI'R DEFNYDD O DIR GWLEDIG A LLEIHAU ALLYRIADAU CARBON**

Mae Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i Leihau Allyriadau Carbon yng Nghymru.

Y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad yw:

> Craffu ar gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau carbon y DU a'i chynigion ar gyfer bodloni'r targed o leihau allyriadau carbon yng Nghymru 3% a nodir yn y ddogfen Cymru'n Un.

Mae'r ymchwiliad wedi'i rannu i'r meysydd pwnc canlynol:

- Lleihau allyriadau carbon yn y sector preswyl
- Lleihau allyriadau carbon yn y sector trafnidiaeth
- Lleihau allyriadau carbon yn y sector diwydiant ac mewn cyrff cyhoeddus
- Lleihau allyriadau carbon yn y sector cynhyrchu trydan (yn cynnwys ynni adnewyddadwy)
- Rheoli'r defnydd o dir gwledig a lleihau allyriadau carbon
- Rôl y system gynllunio o ran lleihau allyriadau carbon

Cynhelir ymgynghoriad ysgrifenedig ar ddechrau pob maes pwnc ac mae'r pedwar ymgynghoriad cyntaf bellach wedi cau.

Mae'r pwyllgor yn awr yn galw am dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ei bumed maes pwnc ar reoli'r defnydd o dir gwledig a lleihau allyriadau carbon, ac yn

gofyn i chi amlinellu barn eich sefydliad ar y cwestiynau yn yr holiadur amgaeedig.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig erbyn **Dydd Gwener 17 Hydref 2008.** Os yn bosibl, cyflwynwch y fersiwn electronig ar ffurf MS Word neu Rich Text, drwy anfon e-bost at Virginia Hawkins, Clerc y Pwyllgor, yn pwyllgor_cynaliadwyedd@Wales.gsi.gov.uk neu ar ddisg. Dylid anfon disgiau neu ymatebion ar bapur i'r cyfeiriad uchod.

Bydd galwadau am dystiolaeth ar y maes pwnc olaf yn cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â sesiynau tystiolaeth y pwyllgor.

Mae rhagor o wybodaeth am ymchwiliad y pwyllgor i leihau allyriadau carbon i'w chael ar dudalennau'r pwyllgor ar y we yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-sc-home.htm

Yr eiddoch yn gywir

Mick Bates

**Mick Bates**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

## Cwestiynau ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad i leihau allyriadau carbon

## Cwestiynau cyffredinol

.

1. A yw'r targed arfaethedig i leihau allyriadau carbon 3 y cant y flwyddyn erbyn 2011 'mewn meysydd lle mae'r pwerau wedi'u datganoli'[1] yn ddigonol i sicrhau bod Cymru'n cyfrannu'n llawn at y gwaith o gyflawni targedau'r DU? Os na, pa dargedau y dylid eu pennu?
2. A ddylid seilio'r targed i leihau allyriadau ar yr ynni a ddefnyddir gan Gymru, yr ynni a gynhyrchir ganddi, neu'r ddau (h.y. a ddylai ystyried y carbon deuocsid a gynhyrchir yng Nghymru (cynhyrchiant), neu'r allyriadau carbon deuocsid y mae dinasyddion Cymru'n gyfrifol amdanynt, beth bynnag fo'r tarddiad (defnydd))?

## Cwestiynau penodol am leihau allyriadau carbon deuocsid a rheoli'r defnydd o dir gwledig:

3. Pa heriau penodol y mae rheolwyr tir gwledig yng Nghymru yn eu hwynebu o ran lleihau allyriadau carbon deuocsid o'u gweithgareddau, a sut y gellir goresgyn yr heriau hyn?
4. I ba raddau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn llwyddiannus wrth ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi i leihau allyriadau carbon deuocsid yn y defnydd o dir gwledig?
5. Pa gyfleoedd sydd ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru helpu rheolwyr tir gwledig o ran y canlynol:

a. lleihau eu hallyriadau carbon deuocsid

b. rheoli'r gwaith o storio carbon yn well o fewn y tir?

6. A allai targedu adnoddau ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn wahanol arwain at fwy o leihau allyriadau carbon deuocsid o fewn cyd-destun y defnydd o dir gwledig nag a geir ar hyn o bryd? Os felly, ble y gallai adnoddau ychwanegol gael yr effaith fwyaf? (Rhowch fanylion i ategu'ch tystiolaeth os gwelwch yn dda).
7. Pa ddulliau eraill a ddefnyddiwyd gan weinyddiaethau eraill (y gweinyddiaethau datgnoledig, y DU a gwledydd eraill) i leihau allyriadau carbon deuocsid yn y defnydd o dir gwledig, y byddai modd eu mabwysiadu yng Nghymru o dan y pwerau presennol?

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*, gwefan [ar 6 Awst 2008)

8. Yng ngyd-destun Deddf Llywodraeth Cymru 2006, pa ddulliau eraill o leihau allyriadau carbon deuocsid yn y defnydd o dir gwledig y byddai modd eu cyflawni *dim ond* pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael pwerau deddfu ychwanegol?
9. Sut y gall rheolwyr tir mewn ardaloedd gwledig gyfrannu at dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru o leihau allyriadau carbon deuocsid 3%, a faint o leihad mewn carbon deuocsid yng Nghymru y byddai'n bosibl ei gyflawni mewn gwirionedd drwy wella'r gwaith o reoli tir?

**Dalier sylw**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, gall eich ymateb ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth atodol i adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth y mae'n ystyried sy'n wybodaeth bersonol.

Pe digwydd cais am wybodaeth a gyflwynir o dan ddeddfwriaeth y DG, efallai y bydd yn angenrheidiol datgelu'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i thynnu allan gan y Cynulliad Cenedlaethol rhag ei chyhoeddi.

Os ydych chi'n darparu unrhyw wybodaeth, ar wahân i wybodaeth bersonol, yr ydych chi'n teimlo nad yw'n addas ei datgelu'n gyhoeddus, dylech chi nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi, a rhoi rhesymau i gefnogi hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.